

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Addysgu  
Powys  
Practis Deintyddol 'River  
Wye'**

Dyddiad arolygu: 27 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg .....	16
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ar gyfer Practis Deintyddol 'River Wye', 'mydentist', StrydHeol Rhydychen, y Gelli Gandryll, Henffordd, HR3 5DS ar 27 Medi 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol 'River Wye' yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol 'River Wye' yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Gelli Gandryll ym Mhowys. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae Practis Deintyddol 'River Wye' yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis.

'Mydentist' sy'n berchen ar Bractis Deintyddol 'River Wye'.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol 'River Wye' yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, a bod y cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Defnyddiwyd llyfr i gofnodi pryderon ar lafar/anffurfiol cleifion
- Roedd y practis yn ymroddedig i gefnogi'r gymuned leol ac i fod yn rhan weithredol ohoni

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ar gwrs triniaeth y GIG
- Gwella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM)
- Gwella'r prosesau cadw cofnodion, gan gynnwys deintyddion i lofnodi'r hanesion meddygol, defnyddio archwiliadau fel ffordd o wneud gwelliannau, a chofnodi manylion llawn cleifion ar gardiau cofnodi
- Trefnu archwiliadau adolygu gan gymheiriaid

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer ceisio adborth gan gleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis arddangos mwy o wybodaeth am hybu iechyd, a sicrhau bod cleifion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar gael o fewn cwrs triniaeth y GIG cyn eu hatgyfeirio i gael triniaeth yn breifat.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, i gael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 17 o holiaduron. Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*“Maent yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn”*

*“Bodlon iawn, wastad yn groesawgar iawn”*

*“mae'r wybodaeth [ynglŷn â'r driniaeth] bob amser yn ddigonol”*

### Gofal gydag urddas

Roeddem o'r farn bod y staff yn broffesiynol a chyfeillgar, ac fe'u clywsom yn bod yn gwrtais ac yn foengar tuag at gleifion. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol.

### Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr y byddent yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r cleifion. Os byddai angen, byddent yn cynnig gwneud trefniadau eraill.

Roedd rhif ffôn cyswllt brys at ddefnydd cleifion wedi'i arddangos yn ffenestr y practis deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng yn cael ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis hefyd, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Wrth adolygu'r holiaduron AGIC wedi'u cwblhau, gwelwyd bod nifer sylweddol o ymatebion yn nodi nad oedd y cleifion yn gwybod sut i gael gofal deintyddol y tu allan i oriau. Dylai'r practis ystyried trafod ffyrdd o wella ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

### Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Fodd bynnag, wrth adolygu nodiadau'r cleifion, gwelwyd bod claf wedi'i gyfeirio at hylenydd preifat pan allai'r ddarpariaeth gwasanaeth hon fod wedi bod yn briodol yn rhan o ofal y GIG. Nid oedd cofnod o unrhyw drafodaeth gyda'r claf yn esbonio hyn, nac o'r claf yn gofyn am weld hylenydd yn breifat. Mae angen adolygu'r mater hwn, a dylid rhoi unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau ar waith a'u trosglwyddo i'r staff. Mae angen i'r practis esbonio i bob claf, yn enwedig y rhai sydd angen gwasanaeth hylenydd yn rhan o'u triniaeth, beth sydd ar gael ar gwrs triniaeth y GIG a'r dewisiadau eraill sydd ar gael.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r staff sicrhau bod yr holl gleifion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar gael ar gwrs triniaeth y GIG cyn iddynt gael eu hatgyfeirio er mwyn cael triniaeth breifat.***

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn yr ardal aros. Cafodd yr amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion yn ymwneud â'r gwahanol fathau o driniaethau, a chanser y geg, ei gydnabod fel arfer da. Roedd posteri ar gael hefyd a oedd yn dangos gwybodaeth ynglŷn â'r triniaethau ac iechyd y geg, yn ogystal â theledu'n arddangos gwybodaeth ddeintyddol a gwasanaethau deintyddol. Gwelsom un poster yn nodi'r Comisiwn Ansawdd Gofal fel cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, gan nad ydynt yn gweithredu yng Nghymru, gwnaethom ofyn i'r practis adolygu a thynnu'r wybodaeth hon i lawr. Dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***



***Mae angen adolygu'r wybodaeth am hybu iechyd er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion Pan nodir asiantaethau eraill, rhaid iddynt fod yn briodol ac yn gywir.***

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd yr arwydd 'dim ysmegu' yn cael ei arddangos. Hysbyswyd y staff a gwnaethant ddweud wrthym y byddai'r arwydd yn cael ei osod.

Roedd y practis yn defnyddio holiaduron i geisio adborth gan gleifion. Gwelsom sampl o ffurflenni adborth wedi'u cwblhau a oedd yn rhoi sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth. Yn ogystal â holiaduron, roedd y practis hefyd yn gwahodd cleifion i fynychu fforwm cleifion. Gwnaethom gydnabod bod y fenter hon yn arfer da, gan ei bod yn galluogi cleifion i roi adborth i staff y feddygfa ynglŷn â'r gwasanaeth. Roedd yr adborth mewn holiaduron a'r fforwm cleifion yn cael eu trafod a'u hystyried yn ystod cyfarfodydd tîm. Roedd hyn gyda'r bwriad o wneud gwelliannau fel bo'n briodol.

### Gofal unigol

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd posteri cwynion wedi'u harddangos yn yr ardal aros a oedd yn ymwneud â chwynion am wasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG. Dywedodd staff wrthym am y system gwyno ar-lein yr oedd y practis yn ei defnyddio i gofnodi a monitro cwynion. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Roedd gan y practis lyfr ar gyfer cofnodi pryderon ar lafar ac anffurfiol, a gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da. Dim ond dau gofnod oedd yn y llyfr, ond roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn canfod themâu ac yn cael ei drafod â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn gwybod i bwy y dylent wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn.

Roedd cynllun adeilad y practis yn addas i bobl ag anawsterau symudedd, ac roedd y cyfleusterau i gyd ar y llawr daear yn cynnwys tŷ bach hygyrch i gleifion.

Roedd y dderbynfa/ardal aros o gynllun agored. Dywedodd y staff wrthym y cynhaliwyd sgysiau preifat mewn ystafell i sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan gleifion yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol yn ystod sgysiau dros y ffôn er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.**

**Gwnaethom nodi rhai gwelliannau i'w gwneud o ran ehangu a gwella cyfleusterau'r practis, ac yr oedd y staff yn ymwybodol ohonynt ac yn barod i'w hystyried. Yn ogystal, gwnaethom argymhell y dylid gwneud rhai gwelliannau yn ymwneud â dadheintio. Mae angen adolygu a gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion a'r archwiliadau.**

### Gofal diogel

#### *Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cynnal a chadw cyfarpar a gedwir yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drosglwyddo a'i waredu'n briodol. Gwelwyd bod pob cofnod o'r fath yn gyfredol ac yn ddilys, gan gynnwys ar gyfer y gwaith cynnal a chadw'r systemau larwm tân a'r diffoddwyr tân. Gwelsom hefyd bod gwastraff peryglus sy'n aros i gael ei waredu yn cael ei gadw mewn man wedi'i gloi, er mwyn gwarchod cleifion a staff.

Roeddem o'r farn bod yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai ychydig o le oedd ar gael oherwydd bod gwaith dadheintio'n cael ei gwblhau ym mhob ystafell driniaeth. Yn ystod ein hymweliad, dywedodd staff wrthym fod ardal bosibl y gellid ei datblygu i wella'r cyfleusterau clinigol yn y feddygfa. Byddai'r ardal bosibl a ddangoswyd yn sicr yn helpu ac yn gwella'r mwynderau yn y practis ac yn gam ymlaen tuag at sicrhau arfer gorau.

#### *Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir yn ddadheintio fel arall), a gweld nad oedd y practis yn bodloni'r mesurau

sefydledig yn llwyr a oedd wedi'u seilio ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM).<sup>1</sup>Gwelsom:

- fod y gwaith dadheintio'n cael ei gwblhau ym mhob ystafell driniaeth, ond nad oedd ardaloedd glân a budr dynodedig.
- Roedd yr ardaloedd dadheintio yn yr ystafelloedd triniaeth yn fach.
- Nid oedd unrhyw brotocol dadheintio wedi'i arddangos ar y wal.

O drafod ac arsylwi, tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y practis gyfle i ddefnyddio lle ychwanegol a fyddai'n gwella'r cyfleusterau ar gyfer dadheintio ac yn gam ymlaen tuag at sicrhau arfer gorau.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac ystyried datblygu lle ychwanegol er mwyn gwella'r cyfleusterau.***

Roedd y trefniadau eraill a welsom yn ymwneud â'r broses ddadheintio'n foddhaol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol.
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau trwy ddefnyddio dull archwilio sy'n gydnaws â chanllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05. Mae hyn yn sicrhau bod yr archwiliad yn ymdrin â'r meysydd hynny sy'n benodol i'r canllawiau a ddefnyddir yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

### *Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau a oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben yn cael eu newid yn brydlon. Roedd y practis wedi penodi pobl fel swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

### *Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisiâu diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### *Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd y staff a oedd yn ymwneud â gwneud radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>2</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn, yn unol â'r gofyn. Wrth archwilio cofnodion cleifion, gwelsom safon dda o waith cadw cofnodion ar y cyfan, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-X deintyddol penodol. Fodd bynnag, gwelsom rai cofnodion heb unrhyw gyfiawnhad yn y nodiadau.

---

<sup>2</sup> Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Mae angen i gofnodion cleifion fod yn gyflawn ac yn fanwl gywir, a dylent gynnwys cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen rhoi cyfiawnhad dros gymryd pob sgan pelydr-X yn y nodiadau clinigol.***

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Gwnaeth yr archwiliad y gwnaethom ei adolygu dynnu sylw at nifer o ganfyddiadau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y rhain wedi'u gweithredu. Argymhellir y dylid defnyddio archwiliadau ar gyfer gwneud gwelliannau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid defnyddio archwiliadau ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus.***

***Mae angen graddio'r lluniau pelydr-X a'u cofnodi'n rheolaidd.***

**Gofal effeithiol**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o 15 o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl, a'u bod yn cynnwys gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwelsom rai problemau a oedd angen sylw, yn cynnwys:

- Rhaid i ddeintydd gyd-lofnodi hanes meddygol yn rheolaidd yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Safon 4)
- Dylid cofnodi a chyfiawnhau cyfnodau ail-alw yn nodiadau clinigol y claf
- Dylai pob cerdyn cofnod papur gynnwys manylion llawn y cleifion, gan gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni, er mwyn sicrhau bod gwaith papur a radiograffau'n cael eu storio yn y lle cywir
- Ni welwyd cofnodion yn cyfiawnhau cymryd sganiau pelydr-X mewn rhai o'r nodiadau a archwiliwyd (fel y nodir uchod)
- Nid oedd un set o nodiadau'n dangos tystiolaeth fod cyngor wedi'i roi ar roi'r gorau i ysmegu na bod y risg o ganser y geg wedi'i esbonio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen gwella cofnodion cleifion trwy sicrhau bod:***

- ***Mae angen i gyfnodau ail-alw gael eu cofnodi a'u cyfiawnhau yn nodiadau'r cleifion***
- ***Mae angen i bob cerdyn cofnod papur gynnwys manylion llawn y cleifion er mwyn sicrhau bod gwaith papur a radiograffau yn cael eu storio yn y lle cywir***
- ***Mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion ar roi'r gorau i ysmegu a'r risg o ganser y geg (lle bo'n berthnasol), ac yn cael ei rhoi yn y nodiadau.***
- ***Mae'r deintydd yn cyd-lofnodi pob hanes meddygol.***

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau. Nid oedd rhai o'r archwiliadau y gwnaethom eu hadolygu'n cynnwys enw'r aseswr a'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac argymhellir y dylid cwblhau archwiliadau'n iawn a chofnodi pob gwybodaeth sy'n angenrheidiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cwblhau pob archwiliad yn llawn a chynnwys enw'r aseswr a'r dyddiad y'i cwblhawyd.***

Dywedwyd wrthym fod cyfarwyddwr clinigol ar gael ar gyfer y deintyddion i roi unrhyw gymorth clinigol yn ôl y gofyn.

Nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau yn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Cafodd y practis ei brynu gan 'mydentist' yn 2014 a dywedwyd wrthym am y gwelliannau a wnaed i'r practis.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda, a bod strwythur rheoli pendant ar waith yn lleol ac yn gorfforaethol. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am y modd roedd y practis yn cael ei weithredu o ddydd i ddydd, ac roedd ystod o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd yn sail iddo er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu mewn modd amserol a diogel. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau gydag aelodau o'r tîm deintyddol.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith ac roeddent yn ymddangos yn fodlon wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwbodol o bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w gwaith ac i'w datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd system ar waith er mwyn i staff gael arfarniad blynyddol a chyfarfodydd un i un rheolaidd. Roedd hyn yn golygu bod cyfleoedd i'r staff fyfyrto ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol gofynnol yn eu barn nhw.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff perthnasol i gyd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu a gweld bod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau'n rheolaidd. Mae polisïau'r practis ar gael i'r staff yn electronig ac ar ffurf copi caled. Rhoddwyd sicrwydd inni fod unrhyw newidiadau i bolisïau'n cael eu trosglwyddo i'r staff.

Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff bob mis, a gwelsom dystiolaeth o agenda a chofnodion cyfarfodydd blaenorol a fyddai'n cael eu dosbarthu ymysg y staff nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod staff.

Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom nodi nad oedd cofnodion papur (cleifion) wedi'u storio mewn cwpwrdd gwrth-dân. Trafodwyd hyn yn ystod yr ymweliad a rhoddwyd cynlluniau ar waith i roi sylw i'r mater hwn.

Roedd y swyddfa ac ystafell y staff y tu allan i'r prif adeilad ac roedd grisiau a ramp serth yn arwain ato. Gwnaethom nodi y gallai'r dull hwn fod yn beryglus i'r staff yn ystod tywydd garw. Gallai'r lle ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i wella'r cyfleusterau clinigol fod o fudd i'r holl staff hefyd trwy osod ystafell y rheolwr practis a'r ystafell staff yn y prif adeilad. Mae angen ystyried symud y swyddfa a'r ystafell staff i'r prif adeilad.

O drafod â'r staff, tynnwyd sylw at yr hyn yr oedd y practis wedi'i wneud i gefnogi'r gymuned leol, a gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer nodedig a da. Roedd y practis wedi codi arian ar gyfer elusen leol, sy'n darparu cludiant i bobl leol sydd heb drafnidiaeth addas. Gwnaeth y practis hefyd drefnu Diwrnod Plant, lle gwnaeth plant lleol dreulio amser yn y practis yn dysgu am bwysigrwydd gofal y geg.



## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y rhoddir sylw i'r canfyddiadau a nodwyd ym mhreactis deintyddol 'River Wye', gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>3</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>4</sup> Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol River Wye

Dyddiad yr Arolygiad: 27 Medi 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
6	<p><b><i>Mae'n rhaid i staff wneud pob claf yn hollol ymwybodol o'r hyn sydd ar gael mewn cwrs o driniaeth y GIG, cyn cael eu hatgyfeirio at driniaeth breifat.</i></b></p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.7</i></p>	Safon 4.2	Dylid cynnig dewisiadau yn unol â rheoliadau Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cyn cytuno ar gynllun triniaeth mae'n rhaid i glinigwyr ddilysu dealltwriaeth y cleifion o opsiwn bandio'r GIG a'r hyn sydd ar gael iddynt. (cyfarfodydd yn seiliedig ar arferion yn cynnwys pob aelod o staff i drafod opsiynau bandio'r GIG sydd ar gael i gleifion sy'n derbyn triniaeth a beth mae hyn yn golygu ar eu cyfer.) Cyhoeddiad HC12W i fod ar gael yn hygyrch i gleifion, sydd eto'n esbonio beth sydd ar gael o dan y bandiau GIG cyfredol.	Rheolwr y Practis/ Cefnogaeth gan y Tîm Clinigol.	Tachwedd 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			Yn ogystal mae gennym eisoes boster mewn print mawr sy'n dangos prisiau cyfredol a thriniaethau bandio. Mae hwn wedi'i arddangos yn yr ystafell aros.		
6	<p>Mae angen adolygu gwybodaeth hybu iechyd i sicrhau ei fod yn hygyrch i ystod ehangach o gleifion.</p> <p><b><i>Lle y rhestrir asiantaethau eraill mae'n rhaid iddynt fod yn briodol ac yn gywir.</i></b></p>	Safon 1.1	<p>Mae'r rhain ar gael yn ystafell aros y cleifion. Rwy'n aelod o Lyfrgell Hybu Iechyd Cymru ac rwy'n derbyn cyhoeddiadau ganddynt yn rheolaidd</p> <p>Ni chefais fy holi am hyn ar y diwrnod. Cafwyd gwared ar y poster Comisiwn Ansawdd Gofal yn syth</p>	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
9	<b><i>Rhaid i'r practis wella'r trefniadau ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac ystyried datblygu</i></b>	Safon 2.4	<p>Er bod gan y practis le ychwanegol, mae hyn wedi'i gymryd, ac mae'n cael ei ddefnyddio a'i brydlesu gan yr adran Iechyd Meddwl.</p> <p>Mae trafodaethau ag adrannau Cyfleusterau ac Eiddo'n digwydd i</p>	Swyddog Rheoleiddio/ Rheolwr Ardal/ Cyfleusterau/ Eiddo	I'w adolygu ar ôl edrych ar y gwaith papur cyfreithiol â phrydles a

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><b><i>Ile ychwanegol i wella cyfleusterau.</i></b></p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 adran 2.4i</i></p>		<p>weld beth y gellir ei wneud o ran sut y gallwn gymryd rhywfaint o le yn ôl i ystyried cynlluniau am ystafell dadheintio.</p>		<p>chytundebau.</p>
10	<p><b><i>Mae angen cyfiawnhau pob sgan pelydr-x yn y nodiadau clinigol.</i></b></p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</i></p>	Safon 3.5	<p>Rwyf wedi amlygu'r diffyg cyfiawnhad ar radiograffau i'r clinigwyr. Mae'r rheolwr cefnogaeth glinigol hefyd yn ymweld â'r practis i ddilysu hyn. Mae matrices hyfforddi bellach ar waith ac yn yr archwiliadau bob chwech mis bydd gwiriadau clir yn cael eu gwneud a'u cofnodi.</p>	<p>Rheolwr y Practis/ Cefnogaeth gan y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Tachwedd 2016</p>
11	<p><b><i>Dylid defnyddio archwiliadau a gynhelir fel dulliau gwella parhaus.</i></b></p>	Safon 3.4	<p>Wedi cytuno â'r deintyddion i gyfarfod i drafod canfyddiadau'r archwiliad fel grŵp. Cynllun gweithredu a datblygu i gael ei raeadru i'r tîm deintyddol.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Tachwedd 2016</p>
11	<p><b><i>Mae angen cofnodi graddfeyddpelydrau-x fel mater o drefn a'u gweithredu.</i></b></p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol</i></p>	Safon 3.5	<p>Mae pob clinigwr yn graddio eu sganiau pelydr-x yn y llyfrau cofnodi a ddarparwyd yn yr ystafell driniaeth ac yn parhau â gweithredu R4 clinigol. Bydd hyn yn dasg orfodol</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Tachwedd 2016</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</i>		i'w chwblhau yn y nodiadau clinigol i sicrhau nad yw hyn yn cael ei golli.		
11	<p><b><i>Mae angen gwella cofnodion cleifion drwy sicrhau:</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><i>Caiff cyfnodau ail-alw'n eu dogfennu a'u cyfiawnhau yng nghofnodion cleifion</i></b></li> <li>• <b><i>Mae gan bob cerdyn cofnodi papur fanylion llawn cleifion wedi'u cofnodi i sicrhau'r manylion cywir ar gyfer storio gwaith papur a radiograffau</i></b></li> <li>• <b><i>Darperir gwybodaeth am roi'r gorau i ysmegu a pheryglon canser y geg i gleifion (Ile y bo'n briodol) a chaiff hyn ei</i></b></li> </ul>	Safon 3.5	<p>Bydd gosod system R4 Clinical Plus eto'n sicrhau bod y cyfnodau ail-alw cyfiawnadwy'n cael eu nodi yn nodiadau'r claf ac yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.</p> <p>Bydd y system gweithredu newydd, fel y gwnaethom grybwyll yn ystod yr ymweliad arolygu – ynghylch amlenni cofnodion cleifion yn cadw gwybodaeth sy'n sensitif i'r claf, bellach yn cael ei storio am dri mis mewn cwpwrdd cloadwy gwrth-dân; ac yna eu harchifo gydag Iron Mountain. Bydd sganiau pelydr-x yn cael eu cadw</p>	Rheolwr y Practis/ Cefnogaeth gan y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	Adolygiad parhaus bob tri mis nes y byddwn yn fodlon

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><b><i>dogfennu yn eu nodiadau.</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b><i>Dylai'r holl hanesion meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintydd.</i></b></li> </ul> <p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</p>		<p>ymhob ystafell driniaeth mewn drôr dan glo gyda chod perthnasol ar gyfer adnabod.</p> <p>Siaradwyd â'r deintydd ynghylch pwysigrwydd cofnodi cyngor am roi'r gorau i ysmegu a sgrinio ar gyfer canser y geg ac adlewyrchu'r drafodaeth yn y nodiadau clinigol gan ddefnyddio'r templed a ddarperir ar R4.</p> <p>Mae pob Hanes Meddygol bellach yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd ar ôl eu cwblhau neu os oes unrhyw newidiadau wedi digwydd. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r archwiliad cardiau cofnodi.</p>	<p>Rheolwr y Practis/ Cefnogaeth gan y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Adolygiad parhaus bob tri mis nes y byddwn yn fodlon</p>
12	<p><b><i>Pob archwiliad i'w cwblhau'n llawn, gan gynnwys enw'r aseswr a'r dyddiad y'i cwblhawyd.</i></b></p>	Safon 3.4	<p>Mae hyn wedi cael ei ystyried yn hollol ac wrth fynd ymlaen bydd yn cael ei gydlofnodi gan ddau aelod o staff. Cadw cofnodion, Archwiliad</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Adolygiad a gwblhawyd ac sy'n barhaus</p>



Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			Radiograff Gwrthficrobig a rheolaeth archwiliadau atgyfeirio.		
12	<b><i>Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.</i></b>	Safonau lechyd a Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Adran 14(2)	Ar hyn o bryd rydym yn trafod â safleoedd cyfagos o fewn y grŵp mydentist i drefnu casgliad o archwiliadau adolygu gan gymheiriaid bob tri mis i gynyddu'r dysgu. Hefyd mae pob deintydd wedi'u cofrestru â phwyllgor archwilio adolygu cymheiriaid y ddeoniaeth.	Rheolwr y Practis/ Deintyddion	Ionawr 2017

### Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): .....**Alison Price**.....

Teitl: .....**Rheolwr y Practis**.....

Dyddiad: .....**24/10/2016**.....